OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2470 (Cy.199)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*7 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a chan baragraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn hwylus bod y cyfeiriad yn rheoliad 2 at Reoliad y Comisiwn yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2009.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) ac 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) 1972 p.68.

(a) ystyr "ceffyl" ("*horse*") yw anifail carngaled, gwyllt neu ddof, o fewn y genws Equus o'r teulu Equidae, a chroesiadau rhwng anifeiliaid o'r fath;

(b) ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno; ac

(c) ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 504/2008 (sy'n gweithredu Cyfarwyddebau y Cyngor 90/426/EEC a 90/427/EEC mewn perthynas â dulliau ar gyfer adnabod equidae(**3**)).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Reoliad y Comisiwn yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(3) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad y Comisiwn yr un ystyron yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn Rheoliad y Comisiwn.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sydd â'r Rhif hwnnw yn Rheoliad y Comisiwn.

RHAN 2

Gorfodi Rheoliad y Comisiwn

Awdurdod cymwys ar gyfer Rheoliad y Comisiwn

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Comisiwn.

Gwerthu ceffylau

4.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwerthu ceffyl roi dogfen adnabod y ceffyl i'r prynwr ar adeg y gwerthu.

(2) Rhaid i'r prynwr, o fewn 30 diwrnod ar ôl prynu, ddychwelyd y ddogfen adnabod ar gyfer y ceffyl hwnnw at y corff dyroddi, gan hysbysu'r corff hwnnw o enw a chyfeiriad y prynwr.

(3) Yn y rheoliad hwn mae "gwerthu" ("*sell*") yn cynnwys unrhyw drosglwyddiad perchnogaeth.

(4) Mae peidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn dramgwydd.

Adnabod ceffylau o fewn terfynau amser

5.—(1) Rhaid i berchennog ceffyl neu, os yw'n wahanol, y ceidwad sy'n bennaf cyfrifol am y ceffyl, gydymffurfio ag Erthygl 3(1).

(2) Mae peidio â chydymffurfio â pharagraff (1) yn dramgwydd.

(3) Yn unol ag Erthygl 5(5)—

(a) perchennog yn unig a gaiff wneud cais am ddogfen adnabod, a

(b) rhaid i'r perchennog wneud cais am ddogfen adnabod o fewn y terfynau amser a bennir yn Erthygl 5, ac y mae peidio â gwneud felly yn dramgwydd.

(4) Os ceir cais am ddogfen adnabod y tu allan i'r terfynau amser, rhaid i'r corff dyroddi stampio'r ddogfen adnabod i'r perwyl na fwriedir y ceffyl i'w gigydda ar gyfer ei fwyta gan bobl.

(**3**) OJ Rhif L 149, 7.6.2008, t. 3.

Gwneud cais am ddogfennau adnabod: dogfennau dyblyg a dogfennau amnewid

6. Mae unrhyw berson sy'n gwneud cais am ddogfen adnabod yn ddogfen ddyblyg neu'n ddogfen amnewid yn groes i Erthygl 5(8) yn euog o dramgwydd.

Mewnforio

7. Os yw perchennog ceffyl—

(a) yn peidio â chydymffurfio ag Erthygl 8(1) (adnabod equidae a fewnforir), neu

(b) yn peidio â gofyn, o fewn 30 diwrnod, i gorff dyroddi weithredu yn unol ag Erthygl 8(2) (darparu gwybodaeth ychwanegol),

mae'n euog o dramgwydd.

Canfod marcio gweithredol blaenorol mewn ceffylau

8. Rhaid i filfeddyg sy'n mewnblannu trawsatebydd mewn ceffyl gyflawni'r gweithdrefnau a bennir yn Erthygl 10(1) (mesurau i ganfod marcio gweithredol blaenorol), ac y mae peidio â gwneud hynny yn dramgwydd.

Trawsatebyddion

9.—(1) Rhaid i gorff dyroddi gydymffurfio ag Erthygl 11(1) (mewnblannu trawsatebydd).

(2) At ddibenion Erthygl 11, y cymhwyster gofynnol ar gyfer mewnblannu trawsatebydd yw, o leiaf, aelodaeth o Goleg Brenhinol y Milfeddygon.

(3) Mae peidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn dramgwydd.

Cyfyngu ar symud ceffylau heb ddogfen adnabod

10.—(1) Rhaid i berchennog ceffyl neu, os yw'n wahanol, y ceidwad sy'n bennaf cyfrifol am y ceffyl, gydymffurfio ag—

(a) Erthygl 13(1) (symud a chludo),

(b) Erthygl 14(1) (rhanddirymiad ar gyfer cardiau call), neu

(c) Erthygl 14(3) (dogfennau dros dro).

(2) Rhaid i fformat cerdyn call gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan y rheoliad hwn, a rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag awdurdodi cerdyn call oni fyddant wedi eu bodloni y bydd y cerdyn yn gweithredu'n effeithiol.

(3) Mae peidio â chydymffurfio â pharagraff (1) yn dramgwydd.

Symud ar gyfer cigydda

11. Rhaid i berchennog ceffyl neu, os yw'n wahanol, y ceidwad sy'n bennaf cyfrifol am y ceffyl, gydymffurfio ag Erthygl 15(1) (symud ar gyfer cigydda), ac y mae peidio â gwneud hynny yn dramgwydd.

Dyroddi dogfennau adnabod: dogfennau dyblyg a dogfennau amnewid

12.—(1) Pan fo corff dyroddi yn dyroddi dogfen adnabod yn ddogfen ddyblyg, rhaid iddo naill ai stampio'r ddogfen adnabod i'r perwyl ei bod yn ddogfen ddyblyg, neu ddosbarthu'r anifail fel un na fwriedir i'w gigydda ar gyfer ei fwyta gan bobl, yn unol ag Erthygl 16(1).

(2) Ni cheir gweithredu'r rhanddirymiad yn Erthygl 16(2) o Reoliad y Comisiwn.

(3) Pan fo corff dyroddi yn dyroddi dogfen adnabod yn ddogfen amnewid, rhaid iddo wneud hynny yn unol ag Erthygl 17 (dyroddi dogfennau amnewid).

(4) Mae peidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn dramgwydd.

Dychwelyd dogfen adnabod ar farwolaeth ceffyl

13.—(1) Pan fo ceffyl wedi ei gigydda neu wedi ei ladd at y dibenion o reoli clefyd, rhaid i'r milfeddyg swyddogol sy'n gyfrifol am y cigydda neu'r lladd ddychwelyd y ddogfen adnabod at y corff dyroddi, yn unol ag Erthygl 19(2)(a)(i), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Pan fo ceffyl wedi ei gigydda i'w fwyta gan bobl, rhaid i feddiannydd y lladd-dy, yn unol ag Erthygl 19(2)(a)(ii), roi'r ddogfen adnabod i'r milfeddyg swyddogol yn y lladd-dy, a rhaid i'r milfeddyg—

(a) gofnodi Rhif adnabod yr anifail;

(b) marcio'r ddogfen adnabod yn briodol; ac

(c) anfon y ddogfen adnabod ar ôl ei marcio, at y corff dyroddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Mewn unrhyw achos arall, er gwaethaf Erthygl 19(2)(b), rhaid i berchennog ceffyl neu, os yw'n wahanol, y ceidwad, ddychwelyd y ddogfen adnabod at y corff dyroddi o fewn 30 diwrnod ar ôl marwolaeth y ceffyl.

(4) Dychweliad y ddogfen adnabod o dan y rheoliad hwn yw'r ardystiad sy'n ofynnol o dan Erthygl 19(1)(c).

(5) Mae peidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn dramgwydd.

Gweithdrefn y corff dyroddi ar farwolaeth ceffyl

14. Ar ôl cael ardystiad a ddychwelwyd yn unol ag Erthygl 19(1) rhaid i gorff dyroddi—

(a) ddirymu'r ddogfen adnabod;

(b) sicrhau na ellir ailddefnyddio Rhif y microsglodyn; ac

(c) dinistrio'r ddogfen adnabod a ddirymwyd.

Triniaeth a ganiateir i geffylau a fwriedir i'w bwyta gan bobl

15.—(1) Rhaid i filfeddyg gydymffurfio ag Erthygl 20.

(2) Rhaid i filfeddyg gofnodi mewn dogfen adnabod y manylion sy'n ofynnol o dan baragraffau 4 (Cofnod brechu), 5 (Profion iechyd labordy) a 7 (Rhoi cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol) o Ran A o Ran II (Gwybodaeth a ddangosir ar basbort) o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn.

(3) Mae peidio â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn dramgwydd.

Cronfeydd data

16.—(1) Mae corff dyroddi sy'n peidio â chydymffurfio ag Erthygl 21 (cofnodion mewn cronfa ddata) yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion Erthygl 21(3), rhaid trosglwyddo'r wybodaeth i'r gronfa ddata ganolog yn unol â hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r corff dyroddi gan Weinidogion Cymru.

Gwaharddiadau

17. Mae'n dramgwydd i berson—

(a) dinistrio neu ddifwyno dogfen adnabod;